Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Goblygiadau ariannol y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

Ebrill 2025

# 1. Cyflwyniad

**1.** Cyflwynwyd y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)[1] (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol[2], (y Memorandwm) gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (yr Asesiad), gan Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig (y Dirprwy Brif Weinidog) ar 9 Rhagfyr 2024.

**2.** Clywodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) dystiolaeth ar oblygiadau ariannol y Bil ar 20 Chwefror 2025[3], gan:

- Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig;
- Chris Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Etifeddiaeth Mwyngloddio a Diogelwch Cronfeydd Dŵr, Llywodraeth Cymru; a
- Kelly Murphy, Pennaeth Gweithredu, Tîm Gweithredu'r Awdurdod Goruchwylio, Llywodraeth Cymru.

**3.** Bu Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn gwneud gwaith craffu ar y Bil o ran polisi.[4]

**4.** Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bil hefyd o ran y materion sy'n dod o fewn ei gylch gwaith.[5]

---

[1] Llywodraeth Cymru, y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)
[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol
[3] Agenda'r Pwyllgor Cyllid, 20 Chwefror 2025
[4] Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
[5] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

# 2. Diben y Bil a’r angen amdano

**5.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai diben cyffredinol y Bil yw:

> *“...diogelu lles pobl trwy gyflwyno system gyson a chadarn o asesu, cofrestru, rheoli, monitro a goruchwylio tomenni nas defnyddir yng Nghymru.”*[6]

**6.** Mae’r Memorandwm yn esbonio y bydd y Bil yn “atal tomenni nas defnyddir rhag bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd”. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy sefydlu “cyfundrefn ar gyfer asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni nas defnyddir”.[7]

**7.** Mae amcanion y Bil yn cynnwys:

- “sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd ansefydlogrwydd;
- creu a chynnal cofrestr o domenni nas defnyddir sy’n bygwth, neu a allai fygwth, lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd;
- sicrhau dull cyson o reoli pob tomen nas defnyddir.”[8]

**8.** Mae’r Memorandwm yn egluro bod y Bil yn “rhan o waith ehangach o fewn y Rhaglen Diogelwch Tomenni Glo i gyflawni yn erbyn amcanion polisi ac mae’n adeiladu ar y gwaith hwn”.[9] Fel rhan o’r rhaglen, bydd corff newydd yn cael ei sefydlu, “yr Awdurdod”, a fydd yn gweithredu’r gyfundrefn newydd, gan sicrhau nad yw tomenni glo nas defnyddir a thomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd.[10]

## Crynodeb o’r costau

**9.** Cost gyffredinol cyflwyno’r Bil yw £99.1 miliwn dros gyfnod arfarnu pymtheng mlynedd (2025-26 i 2039-40). Talgrynnir y costau i’r £100,000 agosaf i adlewyrchu’r ffaith bod “gwerthoedd yn amcangyfrifon o symiau mawr”.[11] Mae crynodeb o’r profion yn Nhabl 1.

[6] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 5
[7] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 5
[8] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 5
[9] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 5
[10] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 12
[11] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 63

Tabl 1: Crynodeb o oblygiadau ariannol y Bil

| Amcangyfrif o'r gost (£'miliwn) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Trosiannol** | **Rheolaidd** | **Cyllid presennol** | **Y gost ychwanegol** |
| **Yr Awdurdod: Sefydlu a gweithredu'r corff** | 5.6 | 105.2 | - 13.0 | 97.8 |
| **Gweithredu'r fframwaith rheoleiddio** | - | 15.6 | -14.3 | 1.3 |
| **Cyfanswm** | **5.6** | **120.8** | **-27.3** | **99.1** |

**10.** Pan ofynnwyd iddo sut y cyfrifwyd yr amcangyfrifon, esboniodd y Dirprwy Brif Weinidog:

> *"… it's robust, it's drawn on our experience, what we're doing already. We can confidently say we've not only followed the Green Book rules, but we're drawing on the experience of the Mining Remediation Authority and what work needs to be done and the categorisation and so on."*[12]

**11.** O ran pam mae union ffigurau wedi'u cynnwys yn yr Asesiad yn hytrach nag ystod, esboniodd y Dirprwy Brif Weinidog:

> *"We've drawn on the evidence from the work that we've been doing, on the evidence that we have from other sponsored bodies on the set-up and establishment costs of new bodies—because there will be a new body set up from this—and the implications of the establishment of those new bodies, from experience, on those things like indirect employment, welfare improvements and so on. So, we can actually tangibly measure, based on track record, what's happened."*[13]

**12.** Mae'r Asesiad hefyd yn nodi bod swm wrth gefn o 5 y cant wedi'i ychwanegu at gostau staff a 25 y cant at gostau nad ydynt yn gostau staff.[14] Nododd y Dirprwy Brif Weinidog fod y symiau wrth gefn hyn yn cefnogi cadernid

[12] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 57
[13] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 61
[14] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 85

yr amcangyfrifon o'r costau.[15] Ychwanegodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru mai'r symiau wrth gefn yw:

> *"… based on the experience of officials putting together new bodies recently. So, just based on that experience and knowledge alone, we thought that it was reasonable."*[16]

**13.** O ran sut mae nifer y tomenni ym mhob categori wedi'i ychwanegu at gost y Bil, eglurodd y Dirprwy Brif Weinidog:

> *"… we used the most up-to-date information that was available at the time the RIA was finalised on the number and category of all disused coal tips in Wales. These have been informed by the work that's been carried out on the ground in inspections by the MRA on behalf of the Welsh Government. We've also discussed resource implications of the carrying out of inspections. So, we've engaged with MRA, NRW and local authorities before finalising things like the final staffing levels that will be needed for the new authority to carry out its functions."*[17]

**14.** Mae'r Asesiad yn gwneud nifer o ragdybiaethau wrth amcangyfrif cost gweithredu'r Bil a'r manteision sy'n deillio ohono.[18] Esboniodd y Dirprwy Brif Weinidog fod rhagdybiaethau wedi'u gwneud o ganlyniad i'r lefel uwch o ansicrwydd dros yr amcangyfrif o 20,000 o domenni nad ydynt yn domenni glo fel:

> *"… I'm not sure that anybody at this moment knows the true number or the extent or the location of some of these tips, because some of them go back to things like metal mining in centuries gone by, and so on. So, there's a deal of work to be done here on that."*[19]

**15.** Eglurodd y Dirprwy Brif Weinidog y bydd unrhyw gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU, fel y £25 miliwn sydd eisoes wedi'i ddarparu ar gyfer 2025-26, yn cyflymu ac yn ehangu'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes hwn, ac y dylid

[15] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 62
[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 145
[17] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 65
[18] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 65
[19] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 66

ystyried ei fod ar wahân i unrhyw gyllid a ddarperir drwy Lywodraeth Cymru i roi'r Bil hwn ar waith.[20] Eglurodd:

> *"Bydd y £25m yn cael ei ddyrannu drwy'r cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo presennol. Gall Awdurdodau Lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru wneud cais am gyllid drwy'r cynllun. Bydd unrhyw dirffurf sy'n bodloni'r diffiniad y cytunwyd arno o domen nas defnyddir yn gymwys i'w ystyried. Bydd dyraniadau drwy'r cynllun yn cael eu blaenoriaethu yn ôl risg a byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid statudol i nodi pa safleoedd y mae angen i ni eu blaenoriaethu."*[21]

**16.** Mae'r Asesiad yn cyfeirio at y cyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu ar hyn o bryd ar gyfer tomenni glo, y mae'n cymryd y bydd yn ei drosglwyddo i'r Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir (yr Awdurdod). Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer Cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo (sy'n cwmpasu gwaith brys). Mae'r Asesiad yn mesur mai £14.3 miliwn yw hyn dros y cyfnod 2027-28 i 2039-40.[22]

**17.** Gofynnodd y Pwyllgor sut y gallai'r Awdurdod flaenoriaethu ceisiadau am gyllid mewn sefyllfaoedd o'r fath lle y gallai ceisiadau am grant fod yn fwy na'r arian sydd ar gael. Eglurodd y Dirprwy Brif Weinidog nad yr arian yw'r ffactor cyfyngol ond y capasiti gan fod disgwyl i'r cyllid yn y maes hwn gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Aeth ymlaen i ddisgrifio sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol ar gynigion i benderfynu a oes modd eu cyflawni o ran adnoddau ac amserlen.[23]

## Goblygiadau ariannol y Bil

**18.** Mae'r Asesiad yn nodi mai'r gost weinyddol net sy'n gysylltiedig â'r Bil yw £97.8 miliwn, sef £5.6 miliwn o gostau trosiannol a £92.2 miliwn o gostau rheolaidd. Mae'r costau hyn yn deillio o'r gwaith o sefydlu a gweithredu'r Awdurdod arfaethedig.[24]

**19.** Mae'r Asesiad yn esbonio bod nifer o opsiynau wedi'u gwerthuso ar gyfer cyflwyno "fframwaith newydd ar gyfer rheoli, monitro a chynnal a chadw

[20] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 53
[21] Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 3 Ionawr 2025
[22] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 53
[23] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 76
[24] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 52

tomenni nas defnyddir". Mae'r Asesiad yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch yr opsiynau a ganlyn:

- "Opsiwn 1 – Busnes fel arfer.
- Opsiwn 2 – cyflwyno fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer rheoli, monitro a chynnal a chadw tomenni nas defnyddir, wedi'i isrannu fel a ganlyn:
    - Opsiwn 2A – addasu corff sy'n bodoli eisoes i weithredu fel Awdurdod ar gyfer y gyfundrefn newydd; a
    - Opsiwn 2B – cyflwyno corff cyhoeddus newydd i weithredu fel Awdurdod ar gyfer y gyfundrefn newydd."[25]

**20.** Yr opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru yw Opsiwn 2B, sef cyfundrefn reoleiddio newydd sy'n cael ei chefnogi drwy sefydlu Awdurdod newydd.[26]

**21.** Mae'r Asesiad yn nodi cost reolaidd ar gyfer cydymffurfio o £1.3 miliwn yn sgil rhoi'r fframwaith rheoleiddio ar waith. Mae hyn yn ymwneud ag amcangyfrif o gost Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW). Tybir bod cost asesu llawn a gwaith brys yn cael ei thalu drwy barhau â'r cyllid presennol ac felly, nid ystyrir ei bod yn gost ychwanegol ar gyfer y cynigion.[27]

**22.** Mae'r Asesiad yn nodi nad oes unrhyw arbedion cost wedi deillio o'r Bil hyd yn hyn.[28]

**23.** Cyfanswm y manteision heb eu meintiol o'r Bil yw £143.5 miliwn dros 15 mlynedd ac maent yn ymwneud â'r canlynol:

- Costau y gellir eu hosgoi yn sgil y lleihad yn nhebygolrwydd methiannau tomenni nas defnyddir a'r ymyrraeth ddilynol;
- Gwell gwerth lles o ganlyniad i'r gwelliannau hamdden; a
- Manteision cyflogaeth anuniongyrchol.[29]

**24.** Mae'r Asesiad yn tybio y bydd yr Awdurdod newydd yn arwain at ostyngiad "o 80% mewn costau sy'n gysylltiedig â methiannau tomenni nas defnyddir

[25] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 56
[26] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 104
[27] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 53
[28] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 52
[29] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 54

oherwydd mesurau lliniaru llwyddiannus”.[30] Cydnabu’r Dirprwy Brif Weinidog fod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch manteision y Bil yng ngoleuni ei natur ‘arloesol’, ond cafodd sicrwydd bod y faintais benodol hon yn amcangyfrif rhesymol.[31]

**25.** Esboniodd y Dirprwy Brif Weinidog, fel o ran Biliau eraill, fod ansicrwydd ynghylch y manteision sy’n deillio o’r Bil hwn am y rheswm a ganlyn:

> *“We can calculate, we can quantify some of the benefits, but there are others that are uncertain, so we've left that uncertainty out. Now, in so doing, I have to say, we're probably underestimating the benefits that arise from this Bill.”*[32]

**26.** Ychwanegodd fod manteision eraill yn deillio o’r Bil na ellid eu mesur fel effeithiau ar fioamrywiaeth, gostyngiadau carbon deuocsid posibl a gwell iechyd meddwl cymunedau.[33]

**27.** Mae’r Memorandwm yn nodi bod manteision wedi’u cyfrifo gan gyfeirio at domenni glo nas defnyddir yn unig gan fod llawer llai o dystiolaeth ar gael ar domenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo.[34]

**28.** Mae’r Memorandwm yn nodi y bydd costau sy’n ymwneud â PEDW yn “uchafswm o £100k y flwyddyn” o 2027-28 yn seiliedig ar gyfanswm o 10 apel y flwyddyn.[35]

**29.** Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weinidog fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda PEDW yn sgil eu profiad o ymdrin ag apelau mewn meysydd eraill fel diogelwch cronfeydd dŵr. Eglurodd:

> *“… we’ve assumed that 25 per cent of notices requiring an owner of land to carry out operations will be the subject of appeal, and, working with PEDW again, we anticipate that we’re looking at around 40 notices to carry out improvements, of which there will be 25 per cent per year—25 per cent, roughly—that will be subject to appeal. So, that means 10 appeals a year.”*[36]

---

[30] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 93
[31] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 69
[32] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 56
[33] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 58
[34] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 63
[35] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 63
[36] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 79

**30.** Ychwanegodd fod y costau wedi'u cyfrifo yn seiliedig ar 20 y cant a fyddai'n apelau llafar a 80 y cant a fyddai'n apelau ysgrifenedig, a fyddai'n arwain at uchafswm o £100,000 y flwyddyn ar apelau.[37]

**31.** Eglurodd y Dirprwy Brif Weinidog y bydd awdurdodau'n gweithio gyda'r rhai sydd wedi cyflwyno apêl i sicrhau nad yw'r tomenni ar eu tir yn peryglu lles a diogelwch pobl.[38] Aeth ymlaen i ddweud:

> *"This Bill does not create new responsibilities for the Welsh Government, NRW or the mine authority to take over responsibility; it is the owner's responsibility for the land. But, there are powers within this where we can step in if need be."*[39]

**32.** O ran pwy fyddai'n atebol i dalu am waith sy'n ofynnol ar dir comin, eglurodd swyddog Llywodraeth Cymru y bydd y Bil hwn yn gwneud y canlynol:

> *"… allow the authority to go in and actually do work on that land. It will then have the ability to seek out who the owner is and try to recover costs. But if it can't, the authority will cover the cost in order to make sure that the tip is safe."*[40]

**33.** Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, mynegodd Swyddfa Archwilio Cymru bryderon ynghylch yr amcangyfrif o "£0.1 miliwn yn ymwneud ag Archwilydd Cyffredinol Cymru dros gyfnod yr asesiad". Esboniwyd bod y costau hyn yn cael eu tanamcangyfrif gan nad ydynt yn ystyried yn ddigonol "gostau cyfunol gwaith ar archwiliadau datblygu cynaliadwy" na'r "archwiliad blynyddol o gyfrifon unwaith y bydd yr Awdurdod newydd yn weithredol".[41]

**34.** Nodwyd ymhellach:

> *"Mae'n anodd bod yn fanwl gywir ynghylch cost archwilio cyfrifon, ac mae ein ffioedd archwilio cyfrifon amcangyfrifedig a gwirioneddol ar draws cyrff y llywodraeth ganolog yn adlewyrchu ffactorau cyd-destunol amrywiol. Efallai y bydd premiwm hefyd ym mlwyddyn gyntaf corff newydd. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i'r gost i'r corff newydd fod yn fwy na £20,000 y flwyddyn fel mater o drefn am y prisiau cyfredol.*

[37] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 79
[38] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 81
[39] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2024, paragraff 87
[40] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 84
[41] Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: DMQTWB 11 - Tystiolaeth gan: Swyddfa Archwilio Cymru

> *Ynghyd â chostau archwiliadau datblygu cynaliadwy, byddai hyn felly'n ychwanegu'n sylweddol at asesiad cyfredol Llywodraeth Cymru o gostau'r Archwilydd Cyffredinol."*[42]

**35.** Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn trafod ag Archwilio Cymru a'u bod yn disgwyl diweddaru'r Asesiad ar ôl y gwaith craffu Cyfnod 2, yn seiliedig ar y trafod hwnnw.[43]

## Barn y Pwyllgor

**36.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu ac yn cefnogi nod y Bil i ddiogelu pobl Cymru drwy sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth bywyd oherwydd ansefydlogrwydd. Mae digwyddiadau diweddar wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cynnal diogelwch tomenni nas defnyddir ac rydym yn croesawu dull rhagweithiol Llywodraeth Cymru o gyflawni'r nod hwn.

**37.** Rydym yn cydnabod bod penderfyniadau cyllido mewn perthynas â thomenni glo wedi cael eu llywio gan lawer mwy o dystiolaeth na'r rhai mewn perthynas â thomenni nad ydynt yn domenni glo. Felly, rydym yn croesawu sicrwydd gan y Dirprwy Brif Weinidog y bydd rhagor o ddata yn cael ei gasglu i gefnogi unrhyw waith sy'n ofynnol ar domenni nad ydynt yn domenni glo pan fydd y Bil hwn yn cael ei roi ar waith.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

**38.** Nodwn fod yr Asesiad yn cyflwyno'r amcangyfrifon o'r costau fel ffigurau manwl gywir yn hytrach nag ystod o ffigurau. Esboniodd y Dirprwy Brif Weinidog fod hyn wedi bod yn bosibl yng ngoleuni'r dystiolaeth a ddaeth i law gan gyrff eraill sy'n ymwneud â chostau sefydlu. Er ein bod yn derbyn y rhesymeg hon mewn egwyddor, nodwn nad yw'r dystiolaeth i gefnogi'r dull hwn wedi'i chynnwys yn yr Asesiad. Felly, mae'n anodd i ni ddod i gasgliad llawn o ran a yw'r costau hyn yn gadarn ac mor gywir ag y gallant fod. Rydym o'r farn y dylid rhannu'r dystiolaeth hon â'r Pwyllgor cyn y ddadl Cyfnod 1 a'i hadlewyrchu mewn Asesiad wedi'i ddiweddaru ar ôl gwaith craffu Cyfnod 2.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu'r dystiolaeth a ddaeth i'w llaw gan gyrff eraill ac a ddefnyddiwyd i lywio

[42] Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: DMQTWB 11 - Tystiolaeth gan: Swyddfa Archwilio Cymru
[43] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 147

costau'r Bil â'r Pwyllgor cyn y ddadl Cyfnod 1 ac yn darparu Asesiad Effaith Rheoleiddio wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r wybodaeth hon yn dilyn trafodion Cyfnod 2.

**39.** Rydym yn derbyn esboniad y Dirprwy Brif Weinidog ynghylch pam y mae angen corff newydd, yr Awdurdod, i roi'r ddeddfwriaeth hon ar waith. Yn ôl yr Asesiad, mae disgwyl creu'r Awdurdod i arwain at nifer o fanteision wrth iddo wneud ei waith. Fodd bynnag, unwaith eto nid oedd y dystiolaeth i gefnogi'r honiad hwn yn amlwg yn yr Asesiad nac yn ystod trafodaethau â'r Dirprwy Brif Weinidog. Yn benodol, byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o sicrwydd i gefnogi'r honiadau yn yr Asesiad y bydd yr Awdurdod newydd yn arwain at ostyngiad o 80 y cant mewn costau sy'n gysylltiedig â mesurau lliniaru llwyddiannus i atal methiannau tomenni.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu'r data y mae wedi'i ddefnyddio i gyfrifo'r manteision sy'n deillio o'r Bil, yn benodol y rhai sy'n ymwneud ag arbedion costau sy'n gysylltiedig â chreu'r Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir, cyn y ddadl Cyfnod 1 ac yn darparu Asesiad Effaith Rheoleiddio wedi'i ddiweddaru yn dilyn trafodion Cyfnod 2.

**40.** Rydym yn nodi sicrwydd y Dirprwy Brif Weinidog y bydd digon o arian i wneud y gwaith sy'n ofynnol i wneud tir sy'n cynnwys tomen nas defnyddir yn ddiogel. Fodd bynnag, rydym yn pryderu ynghylch sut y bydd yr arian hwnnw yn cael ei ddyrannu. Yn benodol, credwn y dylid mabwysiadu proses fwy cadarn ar gyfer blaenoriaethu cyllid, er mwyn osgoi dyrannu ar sail y cyntaf i'r felin a all olygu bod y meysydd hynny ar eu colled. Felly, byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ynghylch sut y bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu ei arian i liniaru hyn.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau sut y bydd yr Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir yn blaenoriaethu ceisiadau am gyllid er mwyn sicrhau ei fod yn mynd i'r meysydd hynny y mae ei angen arnynt fwyaf.

**41.** Rydym yn croesawu ymrwymiad y Dirprwy Brif Weinidog i weithio gydag Archwilio Cymru i gywiro'r hyn sydd, yn ôl Archwilio Cymru, yn danamcangyfrif o'r costau sy'n gysylltiedig â'r rôl a fydd ganddo mewn perthynas â'r Awdurdod. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad ar sut y mae'r trafodaethau hyn yn mynd rhagddo cyn y ddadl Cyfnod 1.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag Archwilio Cymru i sicrhau bod yr amcangyfrifon perthnasol o'r costau yn gadarn ac yn cael eu hadlewyrchu mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddaru ar ôl Cyfnod 2.

# 3. Costau eraill sy'n deillio o'r Bil

## Yr Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir

**42.** Mae'r Bil yn sefydlu corff newydd, yr Awdurdod. Pan ofynnwyd iddo pam roedd sefydlu corff newydd yn cael ei ffafrio dros addasu cyrff presennol, esboniodd y Dirprwy Brif Weinidog:

> *"The appraisal that we did confirmed that there was no single existing body that could fulfil the extended remit that's described within this Bill within existing resources. So, the body that was most likely to fulfil most of the criteria—the Mine Remediation Authority, for example—is not directly accountable to Welsh Ministers. On that basis, we came to the conclusion that it was appropriate, rational, to set up a new body directly accountable to Welsh Ministers and to the people of Wales. This is a significant issue we're trying to deal with; there needs to be that line of accountability."*[44]

**43.** Aeth ymlaen i ddweud:

> *"… this body, will develop significant specialised technical skills that will be of benefit to itself but also to local authorities and other partners in the management of disused tips. It'll have a dedicated remit towards the safety of these disused tips in the way that no other body can do or has done. There will be independent oversight of the regime to make sure that we've got a consistent expert approach right across Wales. It's the economies of scale, I have to say as well, in the procurement of services, because we are talking about expertise here, as I've described—geological, hydrological, and so on."*[45]

### Costau staffio

**44.** Mae'r Asesiad yn nodi y bydd angen 77 o aelodau o staff ar yr Awdurdod.[46] Darparodd y Dirprwy Brif Weinidog ddadansoddiad o'r niferoedd hyn:

[44] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 108
[45] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 109
[46] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 82-85

> *"… 33 of whom will be operational staff doing the assessments, the inspections, the monitoring of tips, collecting data—technical advisers. Thirty four will be corporate staff members, with the back-office functions—legal, HR, finance, IT, governance, strategy—and 10 staff members in the senior category, including the chair, chief executive and five non-executive directors."*[47]

**45.** Mae'r Asesiad yn nodi pryderon a godwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ynghylch y canlynol:

> *"… y gronfa staffio sydd ar gael yn y De, ac wedi awgrymu'r niwed posibl i awdurdodau lleol, pe bai eu haelodau staff presennol yn gadael eu swyddi ac yn ymuno â'r Awdurdod."*[48]

**46.** Pan ofynnwyd iddo sut y gallai Llywodraeth Cymru liniaru'r risgiau hyn, eglurodd y Dirprwy Brif Weinidog:

> *"… we've been engaged with the WLGA all the way through this process of bringing this forward. What we want to do here is not only create this new body with this high level of expertise, but also to uplift the wider sector within Wales as well, including within local authorities. So, I just give you that clear assurance that we'll continue to work with the WLGA to make sure that we're lifting the whole skills base here, because we need good people in local authorities as well."*[49]

**47.** Mae'r Asesiad yn cynnwys tabl o'r cyflogau staff arfaethedig ac yn nodi y bydd rolau technegol fel "timau cynnal a chadw, cynghorwyr ac archwilwyr" yn cael cynnydd o 10 y cant yn y cyflog i "adlewyrchu'r her o ran recriwtio i rolau o'r fath".[50] Mae swm wrth gefn o 5 y cant hefyd wedi'i gynnwys ar gyfer costau staffio, sy'n dod â chyfanswm y gost amcangyfrifedig i £79.3 miliwn neu £5.3 miliwn y flwyddyn dros y 15 mlynedd y mae'r Awdurdod wedi'i sefydlu.[51]

---

[47] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 113
[48] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 85
[49] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 125
[50] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 82-83
[51] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 85

**48.** Pan ofynnwyd iddo a oedd y cyflogau wedi cael eu goramcangyfrif, eglurodd y Dirprwy Brif Weinidog y bydd angen talu'r cyflogau cymesur er mwyn datblygu arbenigedd blaenllaw yn y byd. Dywedodd:

> *"I think the contingency is a wise contingency as well. It's recognising that, within this body, when I talk about it being world leading, some of the roles within it in terms of technical expertise will be world leading. They require payment that is commensurate with what is available outside there in the world of things such as civil engineering, hydrological surveys, all of that. These are not low-paid jobs."*[52]

**49.** Aeth ymlaen i ddweud:

> *"We've also drawn on some of the more back-office ones. Again, we've compared to the establishment of other sponsored bodies, and we've looked at what the cost of those have been, and we've built in some contingency."*[53]

**50.** Pan ofynnwyd iddo a yw Llywodraeth Cymru yn sicr bod y cyflogau yn darparu gwerth am arian wrth ddenu'r ansawdd cywir o unigolion, roedd y Dirprwy Brif Weinidog yn hyderus y byddai'r cyflogau yn arwain at recriwtio'r unigolion cywir.[54]

**51.** Cydnabu swyddog o Lywodraeth Cymru y byddai rhai problemau recriwtio o ganlyniad i natur arbenigol y rolau.[55] Er mwyn lliniaru'r her hon, cyfeiriodd y Dirprwy Brif Weinidog at y gwaith a wnaed gyda Talent Beyond Boundaries:

> *"They launched their programme in Wales in September. They're looking at, for example, how you match internationally displaced skilled workers with Welsh employers to address skill shortages. We have people out there who have these skills, or where they can transfer their existing skill set and upgrade them to work within this, either within local authorities or within the new authority there."* [56]

**52.** Aeth ymlaen i bwysleisio'r angen i uwchraddio'r gweithlu yng Nghymru:

---

[52] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 120
[53] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 120
[54] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 123
[55] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 121
[56] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 127

> *"Why shouldn't we have a public body, and also local authority workers, leading in this, which draws on the best of the upskilling we can do, and drawing on our universities and the workforce from here within Wales, and within the wider UK, but also make use, if this is going to be something where we really push the boundaries on expertise, of those people with those skills, who may have lost their own homes and livelihoods and will be here?"*[57]

## Costau eraill

**53.** Mae'r Asesiad yn nodi bod costau eraill nad ydynt yn gostau staff sy'n gysylltiedig â'r Bil yn gyfanswm o £32.8 miliwn, gyda £5.9 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer technoleg TG. Mae'r costau hyn yn cynnwys swm wrth gefn o 25 y cant.[58] Eglurodd y Dirprwy Brif Weinidog fod y swm wrth gefn yn seiliedig ar brofiad o sefydlu cyrff newydd eraill.[59]

**54.** Mae'r Asesiad yn esbonio bod "cost sylweddol yn gysylltiedig â chaffael neu ddefnyddio technoleg ar gyfer cynnal gweithgareddau technegol fel y darperir ar eu cyfer yn y Bil ac sy'n cael eu llywio gan y rhaglen dechnoleg."[60]

**55.** Pan ofynnwyd iddo a fydd y gost amcangyfrifedig yn ddigonol i ddarparu'r TG sydd ei hangen ar yr Awdurdod, cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weinidog ei fod yn fodlon â'r amcangyfrif.[61] Eglurodd:

> *"… what we have got are some experienced officials with backgrounds in the establishment of these IT systems for other bodies that have been set up as well. So, we've learnt the lessons from the establishment of other bodies in bringing forward these figures. They're based on the current productions costs, and they include implementation partner support during the transition period, licence spends, running costs of cloud environments, and so on. And we've also put £40,000 per year to be earmarked for ongoing licensing and support costs as well."*[62]

[57] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 131
[58] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 87
[59] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 142
[60] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 85
[61] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 135
[62] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 133

**56.** Ychwanegodd:

> *"... we didn't put a disproportionate amount of detail on the face of the RIA due to the multiplicity of data around this and also professional judgment, but it's drawn on the experience not only of what the costs currently are out there, but actually the experience of putting some of these things into place and lessons learnt from previous ..."*[63]

## Adolygiad ar ôl gweithredu

**57.** Mae'r Memorandwm yn nodi bod y cyfnod arfarnu hirach na'r arfer o 15 mlynedd "wedi'i ddefnyddio i adlewyrchu'n well natur dymor hwy y rhaglen".[64]

**58.** Eglurodd y Dirprwy Brif Weinidog y bydd 10 mlynedd gyntaf y rhaglen yn canolbwyntio ar domenni glo, o flwyddyn 10 bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar domenni nad ydynt yn domenni glo.[65]

**59.** Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

> *"... bydd adolygiad ôl-weithredu cychwynnol yn cael ei gynnal tua 5 mlynedd ar ôl i'r gyfundrefn ddod i rym, a fyddai'n 7 mlynedd ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Erbyn hynny byddai'r mwyafrif helaeth o domenni glo nas defnyddir wedi cael eu hasesu'n llawn a, phan fo'n briodol, eu hychwanegu at y gofrestr a byddai'r adolygiad yn cael ei gynnal ar yr adeg pan fyddai tomenni nad ydynt yn domenni glo yn dechrau cael eu hystyried."*[66]

**60.** Nododd y Dirprwy Brif Weinidog y bydd yr adolygiad pum mlynedd yn bwynt da i ddechrau asesu llwyddiant y rhaglen. Ychwanegodd:

> *"... we are expecting the authority to publish regular stats on the number of tips, their inspection regime, their status, to understand the direct impact of the authority's effectiveness."*[67]

---

[63] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 133
[64] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 63
[65] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 41
[66] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 118
[67] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 150

**61.** Mae'r Memorandwm yn esbonio y bydd rhwymedigaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud y canlynol:

- "llunio cynllun corfforaethol o sut mae'n bwriadu cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y cyfnod tair blynedd canlynol a gosod copi gerbron y Senedd;
- paratoi adroddiadau blynyddol a gosod copi gerbron y Senedd;
- paratoi datganiad o gyfrifon yn flynyddol."[68]

**62.** Byddai'r adolygiad ôl-weithredu hefyd yn caniatáu i'r Awdurdod ystyried a mireinio ei ddull mewn perthynas â thomenni nad ydynt yn domenni glo o ganlyniad i unrhyw ddata perthnasol y mae'n ei gasglu drwy'r ymarfer mapio.[69]

**63.** Esboniodd y Dirprwy Brif Weinidog y caiff modelau rhesymeg a damcaniaeth newid eu defnyddio i ddarparu fframwaith ar gyfer y gwerthusiad.[70] Wedi hynny, ysgrifennodd at y Pwyllgor i roi rhagor o wybodaeth am egwyddorion y modelau hyn a sut byddent yn cael eu defnyddio yn ystod y broses adolygu ôl-weithredu.[71]

## Barn y Pwyllgor

**64.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y rhesymeg dros sefydlu Awdurdod newydd i gyflawni nodau polisi'r Bil. Rhoddir ystyriaeth ychwanegol o'r manteision sy'n deillio o greu'r Awdurdod ym Mhennod 2. Fodd bynnag, mae yna ychydig o agweddau ychwanegol sy'n ymwneud â sefydlu'r Awdurdod newydd y credwn fod angen rhagor o eglurhad arnynt.

**65.** O ran y cyflogau arfaethedig ar gyfer staff yr Awdurdod, mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd rhai o'r rolau hyn yn gofyn am set sgiliau arbenigol a bod angen i bolisïau recriwtio a chadw adlewyrchu hynny. Fodd bynnag, byddem yn croesawu dadansoddiad pellach o'r costau staffio a'r rhesymeg dros lefel y tâl i sicrhau bod y rhain yn briodol, yn darparu gwerth am arian ac yn adlewyrchu'r gwaith sy'n cael ei wneud.

[68] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 118
[69] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 119
[70] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2025, paragraff 150
[71] Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Cyllid, 31 Mawrth 2025

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu dadansoddiad pellach o'r costau staffio sy'n deillio o sefydlu'r Awdurdod newydd a sicrwydd bod lefel y tâl yn briodol ac yn dangos gwerth am arian.

**66.** Yn ystod trafodaethau, roedd yn amlwg y bydd sefydlu'r Awdurdod yn golygu y bydd rhai cyrff yn colli rhai o'u cyfrifoldebau wrth iddynt gael eu trosglwyddo i'r Awdurdod. Fodd bynnag, nid yw'r Asesiad na'r dystiolaeth a glywsom yn dangos yn glir a fydd cyllid ar gyfer y cyrff hyn yn cael ei addasu i gyfrif am y newid yn eu cyfrifoldebau ac rydym yn gofyn am eglurhad ar y mater hwn.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau a fydd dyraniadau cyllid ar gyfer cyrff y bydd eu cyfrifoldebau yn trosglwyddo i'r Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir yn destun newid, ac y bydd yr wybodaeth hon, gan gynnwys symiau dan sylw, yn cael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddaru ar ôl Cyfnod 2.

**67.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu ynghylch sut y gall creu Awdurdod newydd olygu y bydd sefydliadau eraill, fel CLlLC, yn colli unigolion medrus iawn pe byddent yn dewis ceisio cyflogaeth gyda'r Awdurdod. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Dirprwy Brif Weinidog i weithio gyda CLlLC i sicrhau bod unrhyw symud staff yn cael ei reoli yn unol â hynny gyda hyfforddiant priodol pan fo angen.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gynnal y sylfaen sgiliau o fewn ei gweithlu yn sgil sefydlu'r Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir.

**68.** Mae'r Pwyllgor yn derbyn yr egwyddor o ychwanegu swm wrth gefn ar gyfer costau nad ydynt yn gostau staff sy'n deillio o'r Bil, gan gynnwys costau TG. Nodwn sicrwydd y Dirprwy Brif Weinidog bod y swm wrth gefn wedi'i dderbyn yn seiliedig ar brofiad o sefydlu cyrff newydd eraill. Fodd bynnag, unwaith eto, nid oedd y manylion hyn wedi'u cynnwys yn yr Asesiad nac yn cael eu darparu gan y Dirprwy Brif Weinidog yn ystod ein sesiwn dystiolaeth. Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'n anodd i'r Pwyllgor asesu a yw'r amcangyfrifon hyn yn gadarn heb gael mynediad at yr wybodaeth sydd wedi llywio'r penderfyniadau hyn ac mae'n gofyn amdani.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu'r dystiolaeth y mae wedi'i hystyried wrth benderfynu ar y swm wrth gefn

sy'n ofynnol i gefnogi'r Bil cyn y ddadl Cyfnod 1 ac mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddaru ar ôl Cyfnod 2.

**69.** Mae'r Pwyllgor wedi argymell o'r blaen ei bod yn arfer da cynnwys adolygiad ôl-weithredu cadarn, gan helpu i sicrhau bod amcanion deddfwriaeth yn cael eu cyflawni yn unol â'r disgwyliadau a dangos y cyflawnwyd gwerth am arian. Felly, rydym yn croesawu cynnwys yr adolygiad ôl-weithredu yn y Bil a sut y bydd hyn yn llywio gwaith yr Awdurdod, yn benodol, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mewn perthynas â thomenni nad ydynt yn domenni glo, wrth i ddata mwy perthnasol ar y tomenni hyn gael ei gasglu.[72]

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod unrhyw adolygiad ôl-weithredu a gynhelir gan Lywodraeth Cymru yn asesu costau a buddion cyffredinol y Bil ac a yw hyn yn bodloni'r disgwyliadau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

[72] Y Pwyllgor Cyllid, Goblygiadau Ariannol y Bil Seilwaith (Cymru), Tachwedd 2023, tudalen 13